Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Y Gwasanaeth Adolygu ar gyfer Iechyd Meddwl a'i Waith

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

## Gwybodaeth i Gleifion

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC.GAIM@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

© Hawlfraint y Goron 2022 WG45063 ISBN digidol 978-1-80364-275-8

# Cyflwyniad i'r Gwasanaeth Adolygu ar gyfer Iechyd Meddwl

## Beth yw diben y Gwasanaeth Adolygu ar gyfer Iechyd Meddwl?

- rôl y Gwasanaeth Adolygu ar gyfer Iechyd Meddwl, sydd wedi'i leoli yn Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, yw parhau i ystyried y defnydd o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 a chadarnhau bod y Ddeddf yn cael ei defnyddio'n gywir
- mae'r Gwasanaeth Adolygu ar gyfer Iechyd Meddwl yn annibynnol ar holl staff a rheolwyr ysbytai a thimau iechyd meddwl
- ymhlith Adolygwyr y Ddeddf Iechyd Meddwl mae meddygon, nyrsys, gweithwyr cymdeithasol, cyfreithwyr, seicolegwyr, defnyddwyr gwasanaeth a phobl eraill â gwybodaeth am y Ddeddf a gwasanaethau iechyd meddwl
- mae'r adolygwyr yn ymweld â phob lleoliad lle y cedwir cleifion o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl, ac yn cwrdd â nhw'n breifat
- mewn amgylchiadau penodol, mae'r Gwasanaeth Adolygu hefyd yn trefnu i feddyg annibynnol roi ail farn os na allwch gydsynio i'ch triniaeth neu os nad ydych yn fodlon gwneud hynny
- gall y Gwasanaeth Adolygu ymchwilio i fathau penodol o gwynion mewn perthynas â gweinyddu a chymhwyso'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn briodol
- mae'r Gwasanaeth Adolygu yn cyhoeddi adroddiad o'i weithgareddau a'i ganfyddiadau bob blwyddyn.

## Sut mae'r Adolygwyr yn gwneud hyn?

Mae'r adolygwyr yn ymweld â phob ward lle y cedwir cleifion o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 a gallant hefyd ymweld â lleoliadau eraill i gwrdd â chleifion sy'n destun gwarcheidiaeth neu Orchymyn Triniaeth Gymunedol er mwyn cadarnhau'r canlynol:

- caiff cleifion o'r fath eu cadw'n gyfreithlon a chânt ofal da
- rhoddir gwybod i gleifion o'r fath am eu hawliau o dan y Ddeddf
- rhoddir parch i gleifion o'r fath am eu rhinweddau, eu galluoedd a'u cefndiroedd amrywiol fel unigolion, a bod eu hanghenion mewn perthynas ag oedran, rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, eu cefndiroedd cymdeithasol, ethnig, diwylliannol a chrefyddol yn cael eu hystyried
- caiff Cod Ymddygiad y Ddeddf Iechyd Meddwl ar gyfer Cymru ei ddilyn (gofynnwch i staff os ydych am weld copi o'r Cod)
- mae'r trefniadau cywir yn cael eu gwneud i'r cleifion cyn iddynt gael eu rhyddhau o'r ysbyty.

Yn ystod ymweliadau, mae'r Adolygwyr yn cwrdd ac yn siarad yn breifat â'r cleifion sy'n cael eu cadw.

Mae'r adolygwyr hefyd yn cyfarfod â'r rheolwyr ac aelodau eraill o'r staff er mwyn siarad am bethau sy'n effeithio ar ofal a thriniaeth y cleifion, ac i godi materion ar ran y cleifion.

## Yr hyn na all y Gwasanaeth Adolygu ar gyfer Iechyd Meddwl ei wneud

Y Gwasanaeth Adolygu:

- ni all eich rhyddhau o'ch adran o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983
- ni all eich rhyddhau o ysbyty
- ni all drefnu i chi gael caniatâd i adael
- ni all eich trosglwyddo i ysbyty arall
- ni all gynnig cyngor meddygol unigol
- ni all gynnig cyngor cyfreithiol unigol
- ni all helpu cleifion anffurfiol.

Mae hyn am fod y gyfraith yn glir iawn ynghylch yr hyn y gallwn ei wneud a'r hyn na allwn ei wneud, nid oherwydd nad ydym am eich helpu. Gall adolygwyr roi cyngor i chi am ble arall y gallech gael y cymorth hwn.

# Gwybodaeth am Gydsynio i Driniaeth

## Rheolau cydsynio i driniaeth ar gyfer meddyginiaeth

Mae'r rheolau hyn ond yn gymwys i feddyginiaeth ar gyfer anhwylder meddwl. Nid ydynt yn caniatáu i'ch clinigydd eich gorfodi i gael triniaeth ar gyfer salwch corfforol. Fodd bynnag:

- Mae angen eich cydsyniad ar gyfer triniaethau penodol neu gytundeb gan feddyg annibynnol sy'n cynnig ail farn
- Mae'r rheolau cydsynio i driniaeth ar gyfer meddyginiaeth yn Neddf Iechyd Meddwl 1983 yn gymwys ar ôl y tri mis cyntaf
- Mae'r rheolau hefyd yn gymwys o ran darparu therapi electrogynhyrfol (ECT).

## Y tri mis cyntaf o feddyginiaeth

Pan gewch eich cadw (o dan y gyfraith) mae'r cyfnod tri mis yn dechrau o'r dyddiad pan gaiff meddyginiaeth ar gyfer eich cyflwr ei rhoi am y tro cyntaf. Yn ystod y cyfnod hwn dylai eich clinigydd wneud y canlynol:

- Esbonio'r rhesymau dros ddefnyddio'r feddyginiaeth
- Esbonio'r sgil-effeithiau tebygol (os bydd rhai o gwbl)
- Gofyn am eich cydsyniad cyn rhagnodi'r feddyginiaeth.

Os nad ydych yn cydsynio, neu'n rhy sâl i roi cydsyniad, ac mae eich clinigydd yn penderfynu ei bod yn angenrheidiol i chi gael y feddyginiaeth, bydd yn rhaid i chi ei chymryd am hyd at dri mis.

## Ar ôl y tri mis o gymryd meddyginiaeth GYDA'ch cydsyniad

- Ar ôl y tri mis cyntaf o gymryd meddyginiaeth, bydd yn rhaid i'ch clinigydd gael eich cydsyniad er mwyn i chi barhau i gymryd y feddyginiaeth
- Os byddwch yn cydsynio, bydd eich clinigydd yn llenwi ffurflen (Ffurflen CO2) lle y bydd yn disgrifio'r feddyginiaeth. Bydd y clinigydd hefyd yn ardystio bod y feddyginiaeth wedi cael ei hesbonio i chi a'ch bod wedi cytuno i'w chymryd
- Dylai eich clinigydd adolygu eich ffurflen CO2 a'ch cydsyniad yn rheolaidd
- Bydd adolygwyr hefyd yn edrych ar Ffurflen CO2 pan fyddant yn ymweld â'ch ysbyty.

## Os byddaf yn cytuno i gymryd y feddyginiaeth a allaf newid fy meddwl yn ddiweddarach?

- Gallwch – gallwch newid eich meddwl a thynnu eich cydsyniad yn ôl ar unrhyw adeg, ond dylech bob amser siarad â'ch clinigydd cyn i chi wneud hynny
- Os byddwch o hyd, ar ôl siarad â'ch clinigydd, am roi'r gorau i gymryd y feddyginiaeth ar ôl i'r cyfnod tri mis ddod i ben, ac nad yw eich clinigydd yn cytuno, bydd yn rhaid iddo roi gwybod i'r Gwasanaeth Adolygu ar gyfer Iechyd Meddwl a fydd yn trefnu i Feddyg a Benodwyd i Roi Ail Farn (SOAD) ymweld â chi.

## Ar ôl y tri mis cyntaf o gymryd meddyginiaeth HEB eich cydsyniad

- Os na fyddwch yn cydsynio neu'n rhy sâl i roi eich cydsyniad ar ôl y tri mis cyntaf o gymryd meddyginiaeth, bydd yn rhaid i'ch clinigydd roi gwybod i'r Gwasanaeth Adolygu ar gyfer Iechyd Meddwl
- Yna, bydd y Gwasanaeth Adolygu ar gyfer Iechyd Meddwl yn trefnu i SOAD ymweld â chi
- Nes y bydd yr SOAD wedi ymweld â chi ac wedi gwneud penderfyniad, gall eich clinigydd barhau i ofyn i chi gymryd meddyginiaeth.

## Beth mae'r Meddyg a Benodwyd i Roi Ail Farn (SOAD) yn ei wneud?

- Yn gyntaf mae'r SOAD yn cadarnhau eich bod yn cael eich cadw'n gyfreithlon
- Yna bydd yr SOAD yn trafod y feddyginiaeth â chi, yn breifat fel arfer. Bydd yr ysbyty'n darparu dehonglydd neu arwyddwr os bydd angen un arnoch
- Mae'r SOAD yn siarad â'r clinigydd sy'n gyfrifol am eich triniaeth ac â nyrs gofrestredig sydd wedi cymryd rhan yn eich gofal a'ch triniaeth
- Bydd hefyd yn ymgynghori ag un person arall sydd wedi cymryd rhan broffesiynol yn eich gofal, megis gweithiwr cymdeithasol, fferyllydd ysbyty neu therapydd galwedigaethol
- Yna, bydd yr SOAD yn ystyried a oes angen i chi barhau i gymryd y feddyginiaeth a ragnodir ar eich cyfer

- Os bydd yr SOAD yn cytuno y dylech barhau i gymryd y feddyginiaeth bydd yn cwblhau Ffurflen CO3, sy'n cynnwys disgrifiad o'r feddyginiaeth y mae'r SOAD wedi cytuno y dylech ei chymryd. Mae'r SOAD yn feddyg annibynnol ac efallai na fydd yn cytuno â rhai o'r meddyginiaethau arfaethedig neu unrhyw un ohonynt
- Bydd y Clinigydd sy'n gyfrifol am eich triniaeth yn dweud wrthych am benderfyniad yr SOAD, a bydd yn dangos y rhesymau i chi dros wneud y penderfyniad hwn
- Y farn a roddir gan yr SOAD yw ei benderfyniad clinigol personol. Mae'r SOAD yn anfon copi o'r Ffurflen CO3 wedi'i chwblhau i'r Gwasanaeth Adolygu ar gyfer Iechyd Meddwl, a fudd yn edrych arni'n ofalus iawn.

**Ni allwch gyflwyno apêl i'r Gwasanaeth Adolygu ar gyfer Iechyd Meddwl os byddwch yn anghytuno â'r penderfyniad hwnnw.**

## Triniaeth frys

Mewn amgylchiadau eithriadol, pan fo angen triniaeth ar frys, nid yw'r rheolau arferol ar gydsynio i driniaeth yn gymwys.

Mae Deddf Iechyd Meddwl 1983 yn caniatáu i driniaeth frys gael ei rhoi i'r claf os bydd angen gwneud hynny er mwyn:

- Achub bywyd y claf
- Lleihau dioddefaint difrifol
- Atal cyflwr y claf rhag gwaethygu'n sylweddol
- Atal y claf rhag ymddwyn yn dreisgar, neu fod yn berygl iddo'i hun neu i eraill.

## Pethau i'w cofio:

- Os bydd gennych unrhyw bryderon neu gwestiynau am eich meddyginiaeth neu unrhyw fath arall o driniaeth feddygol, dylech siarad â'r staff nyrsio a'r clinigydd sy'n gyfrifol am eich gofal amdanyn nhw yn gyntaf
- Ar ôl y tri mis cyntaf o gymryd meddyginiaeth, mae'n rhaid i'ch clinigydd gael eich cydsyniad, neu gytundeb SOAD, cyn parhau â'r feddyginiaeth
- Mewn argyfwng, nid yw'r rheolau arferol ar gydsynio i driniaeth yn gymwys
- Os bydd gennych unrhyw bryderon neu gwestiynau am wasanaeth yr SOAD, gallwch siarad ag Adolygydd sy'n ymweld â'r gwasanaeth neu cysylltwch â swyddfa'r Gwasanaeth Adolygu ar gyfer Iechyd Meddwl ym Merthyr Tudful
- Mae Cod Ymddygiad y Ddeddf Iechyd Meddwl ar gyfer Cymru yn rhoi rhagor o ganllawiau ar y rheolau o ran cydsynio i driniaeth. Dylai copi fod ar gael ym mhob ward – gofynnwch i staff y ward am hyn
- Os bydd angen rhagor o gymorth arnoch i ddeall eich hawl i wrthod meddyginiaeth, neu unrhyw fath arall o driniaeth feddygol, dylech siarad â'r canlynol:
    - Eich clinigydd cyfrifol neu aelod arall o'ch tîm gofal
    - Eiriolwr iechyd meddwl annibynnol, grŵp cymorth defnyddwyr neu gyfreithiwr
    - Y Gwasanaeth Adolygu ar gyfer Iechyd Meddwl.

# Therapi Electrogynhyrfol (ECT)

## Beth yw ECT?

Ystyr ECT yw therapi electrogynhyrfol.

Bydd staff yr ysbyty'n eich helpu i ddeall beth yw ECT, ei ddiben a'i effeithiau.

## Rheolau cydsynio i driniaeth ar gyfer ECT

- Yn debyg i'r rheolau o ran meddyginiaeth, unwaith y cewch eich cadw, bydd angen eich cydsyniad er mwyn rhoi ECT, neu os byddwch yn rhy sâl i roi eich cydsyniad bydd angen cytundeb gan Feddyg a Benodwyd i Roi Ail Farn
- Os byddwch yn ddigon iach i roi eich cydsyniad, ond yn gwrthod gwneud hynny, ni ellid rhoi ECT i chi
- Os ydych o dan 18 oed, gellid ond rhoi ECT gyda'r cytundeb o Feddyg a Benodwyd i Roi Ail Farn
- Mewn amgylchiadau eithriadol, pan fo angen ECT ar frys, gellid ei roi (gweler Triniaeth Frys ar dudalen 7 o'r daflen hon)
- Os byddwch o dan 18 neu'n rhy sâl i roi eich cydsyniad er mwyn cael ECT, bydd yn rhaid i'r clinigydd cyfrifol roi gwybod i'r Gwasanaeth Adolygu ar gyfer Iechyd Meddwl ei fod yn dymuno i chi ei gael
- Yna, bydd y Gwasanaeth Adolygu ar gyfer Iechyd Meddwl yn trefnu i SOAD ymweld â chi.

## Os byddwch yn cytuno i gael ECT a allwch newid eich meddwl yn ddiweddarach?

- Gallwch – gallwch newid eich meddwl a thynnu eich cydsyniad yn ôl ar unrhyw adeg, ond dylech bob amser siarad â'ch clinigydd cyn i chi wneud hynny.

## Beth mae'r SOAD yn ei wneud?

- Dyma'r un broses â'r broses ar gyfer meddyginiaeth (gweler Beth mae'r SOAD yn ei wneud? o dan Meddyginiaeth ar dudalen 6 o'r daflen hon).

## Gorchymyn Triniaeth Gymunedol (CTO)

Os ydych yn y gymuned o dan Orchymyn Triniaeth Gymunedol (CTO) gofynnir i SOAD ddarparu tystysgrif ar gyfer unrhyw driniaeth ar gyfer anhwylder meddwl (yn benodol, meddyginiaeth neu therapi electrogynhyrfol). Fel arfer, darperir y dystysgrif hon o fewn y mis cyntaf ar ôl i'r CTO gael ei roi ar waith.

Bydd yr SOAD yn dilyn proses debyg i'r un ar gyfer meddyginiaeth (gweler tudalen 6). Ar ôl yr ymweliad, bydd yr SOAD yn cwblhau Ffurflen CO7, os yw'n briodol.

**Ni allwch gyflwyno apêl i'r Gwasanaeth Adolygu ar gyfer Iechyd Meddwl os byddwch yn anghytuno â phenderfyniad yr SOAD.**

# Gwybodaeth am y Weithdrefn Cwynion

## Beth i'w wneud os hoffech wneud cŵyn

- Os ydych, neu os oeddech, yn cael eich cadw o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl ac mae gennych gŵyn am rywbeth sydd wedi digwydd, yn gyntaf, bydd yn rhaid i chi ofyn i'r bobl sy'n rhedeg yr Ysbyty neu'r awdurdod lleol cyfrifol ymchwilio i'r gŵyn ar eich cyfer. Gelwir hyn yn "ddatrysiad lleol"
- Dylech ysgrifennu at y Swyddog Cwynion yn yr ysbyty, neu i'r awdurdod lleol cyfrifol, neu siarad â nhw, neu ofyn i rywun wneud hyn ar eich rhan. Os byddwch yn ei chael hi'n anodd gwneud cŵyn, bydd gwasanaeth eiriolaeth yn gallu eich helpu drwy'r broses. Hefyd, gall eich cangen Llais lleol eich helpu os byddwch yn cwyno am y GIG
- Os yw eich cŵyn am rywbeth difrifol iawn (er enghraifft, os oes rhywun wedi ymosod arnoch) dylech godi hyn â'r staff cyn gynted ag sy'n bosibl fel y gellid ymchwilio i hyn yn briodol
- Bydd y sefydliad yn ymchwilio i'ch cŵyn ac yn anfon llythyr neu adroddiad atoch gan nodi ei ganfyddiadau ac unrhyw gam gweithredu y mae'n bwriadu ei gymryd er mwyn unioni'r sefyllfa.

## Beth i'w wneud os nad ydych yn fodlon o hyd ar ôl datrysiad lleol

Os bydd eich cŵyn am y gwasanaeth a ddarperir gan y GIG  ac ni chaiff ei datrys drwy Ddatrysiad Lleol, gallwch ofyn am Adolygiad Annibynnol. Dylech ysgrifennu at Ysgrifenyddiaeth yr Adolygiad Annibynnol o fewn 28 diwrnod i'r llythyr olaf i chi ei gael ynglŷn â'ch cŵyn.

Swyddfa De Cymru
Blwch Post 21
Caerdydd CF10 2ZR
**Ffôn:** 029 2040 2262
**Ffacs:** 029 2040 2398

Swyddfa Canolbarth Cymru
Blwch Post 2
Aberhonddu LD3 0XR
**Ffôn:** 01874 712748
**Ffacs:** 01874 712756

Swyddfa Gogledd Cymru
Blwch Post 125
Yr Wyddgrug CH7 1WH
**Ffôn:** 01352 700227
**Ffacs:** 01352 754649

Os nad ydych yn fodlon o hyd gallwch gysylltu ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru y:

1 Ffordd yr Hen Gae
Pencoed
CF35 5LJ
**Ffôn:** 01656 641150

Os bydd eich cŵyn am y gwasanaeth a ddarperir gan Wasanaeth Iechyd Annibynnol (preifat) a ariennir gan y GIG ac na chaiff ei datrys drwy Ddatrysiad Lleol, gallwch gysylltu â'ch sefydliad cyllido a fydd yn cymhwyso system gwyno'r GIG a ddisgrifir uchod.

Os bydd eich cŵyn am Wasanaethau Cymdeithasol ac na chaiff ei datrys drwy brosesau Datrysiad Lleol gallwch gysylltu ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn:

1 Ffordd yr Hen Gae
Pencoed
CF35 5LJ
**Ffôn:** 01656 641150

# Gwasanaeth Adolygu ar gyfer Iechyd Meddwl a chwynion

Efallai y gall y Gwasanaeth Adolygu helpu:

- os bydd eich cŵyn am y ffordd y defnyddiodd rhywun ei bwerau neu'r ffordd y cyflawnodd rhywun ei ddyletswyddau o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl mewn perthynas â pherson sy'n cael ei gadw o dan y Ddeddf.

Yn y rhan fwyaf o achosion, byddai'r Gwasanaeth Adolygu yn disgwyl i gwynion fynd drwy'r prosesau a amlinellir uchod. Fodd bynnag, byddai'r Gwasanaeth Adolygu yn nodi'r pryderon a godwyd ac yn defnyddio'r wybodaeth fel rhan o'i waith mewn gwasanaethau monitro. Er enghraifft, os ceir nifer o bryderon tebyg gallai hyn arwain at ymweliad â gwasanaeth gan y Gwasanaeth Adolygu neu'r cydweithwyr yn Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru sy'n gyfrifol am reoleiddio ysbytai annibynnol.

## NI ALL y Gwasanaeth Adolygu helpu:

- Os na fydd eich cŵyn yn cyfateb i un o'r mathau a nodir uchod
- Os bydd eich cŵyn yn destun, neu'n debygol o fod yn destun, achos cyfreithiol
- Os ydych, yn syml, yn anghytuno â phenderfyniadau clinigol eich meddyg
- Os bydd eich cŵyn, yn syml, am y ffaith eich bod yn cael eich cadw neu eich trin yn erbyn eich ewyllys.

Nid oes gan y Gwasanaeth Adolygu bŵer i'ch rhyddhau. Dylech, yn hytrach, ofyn am i'ch achos gael ei ystyried gan Dribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl.

Gallwch hefyd ofyn i reolwyr yr ysbyty eich rhyddhau. Bydd nyrs yn eich helpu i wneud naill ai un o'r prosesau hyn, neu'r ddwy ohonynt; gall gwasanaeth eiriolaeth neu gyngor eich helpu hefyd.

# Sefydliadau eraill a allai ystyried eich cŵyn

Sefydliadau eraill a allai ystyried eich cŵyn Mae nifer o sefydliadau eraill a all helpu neu ystyried cwynion. Mae gan bob un ei bwerau ei hun, ynghyd â pholisïau a gweithdrefnau ar yr hyn y bydd yn ei ystyried.

## Gwasanaethau cymdeithasol a chartrefi gofal cofrestredig

Arolygiaeth Gofal Cymru
Swyddfa Llywodraeth Cymru
Sarn Mynach
Cyffordd Llandudno
LL31 9RZ
**Ffôn:** 0300 7900 126
**Ffacs:** 0872 437 7301
**E-bost:** CIW@llyw.cymru

## Gwasanaethau a ddarperir i bobl o dan 18 oed

### Manylion cyswllt ar gyfer plant a phobl ifanc

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Tŷ Ystumllwynarth
Charter Court
Phoenix Way
Llansamlet
SA7 9FS
**Ffôn:** 01792 765600
**E-bost:** post@childcomwales.org.uk

## Gwasanaethau a ddarperir i bobl hŷn

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Adeiladau Cambrian
Mount Stuart Square
Butetown
Caerdydd CF10 5FL
**Ffôn:** 03442 640 670
**Ffacs:** 03442 640 680

## Sut y gallaf gysylltu ag Adolygydd?

- Gallwch ofyn i staff yr ysbyty wneud apwyntiad i chi gwrdd ag Adolygydd pan fydd yn ymweld â'r ysbyty nesaf
- Gallwch ofyn am gael gweld yr Adolygydd pan fydd yn ymweld â'r ward.

### Os nad yw'r Adolygwyr wedi cynllunio ymweliad â'ch ward yn y dyfodol agos

- Gallwch ysgrifennu i swyddfa'r Gwasanaeth Adolygu ar gyfer Iechyd Meddwl ym Merthyr Tudful (noder y cyfeiriad ar dudalen gefn y daflen hon). Mae llythyrau i'r Gwasanaeth Adolygu'n gyfrinachol ac efallai ni chaniateir i staff yr ysbyty eu hatal na'u hagor
- Gallwch siarad â rhywun yn y swyddfa rhwng 09.00 a 17.00 o ddydd Llun i ddydd Gwener ar 0300 062 8163
- Pan fydd y swyddfa ar gau mae gwasanaeth ateb y ffôn ar gael, rhwng 17.00 a 09.00 ar ddyddiau'r wythnos a thrwy'r dydd ar ddydd Sadwrn, dydd Sul a Gwyliau Banc
- Os byddwch yn defnyddio'r gwasanaeth ateb y ffôn, nodwch eich enw, cyfeiriad neu rif ffôn eich ward/cartref fel y gall rhywun gysylltu â chi ar y diwrnod gwaith nesaf
- Os nad ydych yn hoffi defnyddio'r peiriant ateb, ffoniwch yn ôl yn ystod oriau gwaith arferol, neu gofynnwch i berthynas neu ffrind ffonio ar eich rhan
- Gallwch e-bostio swyddfa'r Gwasanaeth Adolygu ar gyfer Iechyd Meddwlyn AGIC.GAIM@llyw.cymru

# Polisi Preifatrwydd: Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data

Yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, mae dyletswydd gyfreithiol arnom i ddiogelu unrhyw wybodaeth bersonol rydym yn ei chasglu gennych. Rydym yn defnyddio technolegau a meddalwedd amgrymptio blaengar i ddiogelu eich data, ac yn cadw safonau diogelwch llym er mwyn atal unrhyw fynediad heb awdurdod atynt.

Nid ydym yn trosglwyddo'ch manylion i unrhyw drydydd parti nac adran arall o'r llywodraeth.

## Eich hawliau

Yn unol â'r GDPR, mae gennych hawliau fel unigolyn y gallwch eu harfer mewn perthynas â'r wybodaeth rydym yn ei chadw amdanoch, sef:

- hawl i weld copi o'r wybodaeth a gedwir yn eich data personol;
- hawl i wrthwynebu prosesu sy'n achosi difrod neu drallod, neu sy'n debygol o wneud hynny;
- hawl i atal prosesu at ddibenion marchnata uniongyrchol;
- hawl i wrthwynebu penderfyniadau a wneir drwy ddulliau awtomataidd;
- hawl, mewn amgylchiadau penodol, i gywiro, rhwystro, dileu neu ddinistrio data personol sy'n anghywir;
- hawl i wneud cais am iawndal am ddifrod a achosir o ganlyniad i dorri'r Ddeddf.

Ewch i'n gwefan er mwyn cael rhagor o wybodaeth am Bolisi Preifatrwydd AGIC agic.org.uk/polisi-preifatrwydd

Os bydd gennych unrhyw ymholiadau am y Gwasanaeth Adolygu ar gyfer Iechyd Meddwl a'i waith, neu os byddwch am fynnu unrhyw un o'r hawliau a amlinellir uchod, cysylltwch â ni yn:

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ
**Ffôn:** 0300 062 8163

Mae manylion llawn ar sut rydym yn cydymffurfio â'r Ddeddf ar gael ar ein gwefan agic.org.uk, neu gallwch gysylltu â ni.